

Fferylliaeth: Bwrdd Cyflenwi Cyflawni Cymru Iachach

15 Hydref 2020

Hysbysiad



Cafodd y trydydd cyfarfod o Fwrdd Cyflenwi *Fferylliaeth: Cyflawni Cymru Iachach* ei gynnal ar 15 Hydref. Mae'r Bwrdd, sy'n cael ei gadeirio gan Darren Hughes, Cyfarwyddwr Conffederasiwn GIG Cymru, yn chwarae rôl allweddol i lywio cynnydd y weledigaeth ar gyfer Fferylliaeth.

Yn y cyfarfod diweddaraf hwn, canolbwyntiodd y Bwrdd ar drafod:

Mesurau ac adborth yr is-grŵp

- Ar ôl i'r Bwrdd gyfarfod ddiwethaf (10 Hydref) cafodd is-grŵp ei sefydlu i ystyried pa fesurau a dangosyddion allweddol oedd eu hangen i gyflawni nodau 2022. Cyfarfu'r gweithgor oes fer ar 1 a 7 Hydref i drafod y nodau 2022 presennol o dan bob un o'r pedwar thema:
 - Gwella profiad y claf
 - Datblygu'r gweithlu Fferylliaeth
 - Gofal fferyllol di-dor
 - Arloesi a Thechnoleg

Roedd aelodau'r is-grŵp yn ymwybodol mai bwriad gwreiddiol nodau 2022 oedd sicrhau bod modd gwneud cynnydd tuag at gyflawni'r uchelgais ddeng mlynedd ar gyfer gwireddu'r weledigaeth.

- Adroddodd Marc Donovan, Aelod o Fwrdd Fferylliaeth Gymunedol Cymru, argymhellion yr is-grŵp yn ôl i'r Bwrdd, gan ddarparu set o fesurau yn erbyn pob un o nodau 2022. Trafododd y Bwrdd sut y gellid cyflawni'r rhain a pha gynnydd oedd wedi'i wneud eisoes. Cytunwyd y byddai cael set glir o fesurau yn galluogi'r Bwrdd i fonitro cynnydd yn y dyfodol.
- Bydd y Bwrdd yn cytuno ar bwy fydd yn cymryd perchenogaeth o bob un o nodau 2022, ac ar y mesurau ar gyfer pob un o'r nodau hynny. Bydd drafft cyntaf cychwynnol o bwy yn union fyddai yn y sefyllfa orau i gymryd perchenogaeth yn cael ei rannu â'r Bwrdd maes o law ac yn cael ei drafod yn y cyfarfod nesaf os oes angen.
- Cynhelir y cyfarfod nesaf o Fwrdd Cyflenwi *Fferylliaeth: Cyflawni Cymru Iachach* ddydd Iau 19 Tachwedd.
- Os oes gennych unrhyw gwestiynau cysylltwch â ni yn:
Pharmacy.DeliveryBoard@llyw.cymru